

BRO DWYNWEN 21/09/2025
Mathew Apostol ac Efengylwr
Matthew, Apostle and Evangelist

Ymddengys Mathew yn y rhestr o ddeuddeg apostol Iesu ac, yn ôl yr efengyl a ysgrifennwyd yn ei enw, casglwr trethi ydoedd. Lefi yw enw Marc a Luc ar y casglwr trethi, a rhagdybir mai'r un dyn yw'r ddau. Er bod ei gyd-Iddewon yn casáu casglwyr trethi fel rhai a oedd wedi bradychu eu gwlad i fyddin Rhufain, dangosodd Crist nad barnu ymddangosiad allanol yr oedd ef. Bu'n bwyta gyda Mathew a'i gyfeillion, gan beri tramgwydd mawr i'w ddilynwyr. Datganodd Mathew y newidid ei fywyd o hyn allan wrth iddo ddilyn Iesu, ac y gwnâi iawn am unrhyw gamwri a wnaethai. Yr oedd hyn yn ddigon i Iesu, oherwydd daethai â Mathew yn ôl at Dduw. Maddeuwyd iddo. Yr oedd, felly, yn dderbyniol ac wedi ei achub.

Hanes y Seintiau o Exciting Holiness gan y Brawd Tristam CSFf

Matthew appears in the list of the twelve apostles of Jesus and, according to the gospel written under his name, was a tax collector. Mark and Luke called the tax collector Levi, and it has been assumed that they are one and the same. This occupation was despised by his fellow Jews as a betrayal to the occupying Roman force but Christ showed that judging by outward appearance was not what he was about. He ate with Matthew and with his friends, scandalising those around him. Matthew affirmed that his life would now change because of following Jesus, and that he would make amends for any former wrongdoing. This was enough for Jesus, for he had drawn someone back to God. He was forgiven, therefore he was acceptable, therefore he was received.

Hagiography from Exciting Holiness by Brother Tristam SSF

Colect 268

O Dduw Hollalluog, y galwodd dy Fab bendigaid Mathew, y casglwr trethi, i fod yn apostol ac efengylwr; dyro i ni ras i ymwrthod â cheisio elw yn hunanol a chariad trachwantus at gyfoeth, fel y gallwn ddilyn yn ffordd dy Fab Iesu Grist, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 268

O Almighty God, whose blessed Son called Matthew the tax collector to be an apostle and evangelist: give us grace to forsake the selfish pursuit of gain and the possessive love of riches that we may follow in the way of your Son Jesus Christ, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Diarhebion 3. 13-18

Gwyn ei fyd y sawl a gafodd ddoethineb, a'r un sy'n berchen deall. Y mae mwy o elw ynddi nag mewn arian, a'i chynnyrch yn well nag aur. Y mae'n fwy gwerthfawr na gemau, ac nid yw dim a ddymuni yn debyg iddi. Yn ei llaw dde y mae hir oes, a chyfoeth ac anrhydedd yn ei llaw chwith. Ffyrdd hyfryd yw ei ffyrdd, a heddwch sydd ar ei holl lwybrau. Y mae'n bren bywyd i'r neb a gydia ynddi, a dedwydd yw'r rhai sy'n glynu wrthi.

Proverbs 3. 13-18

Happy are those who find wisdom, and those who get understanding, for her income is better than silver, and her revenue better than gold. She is more precious than jewels, and nothing you desire can compare with her. Long life is in her right hand; in her left hand are riches and honour. Her ways are ways of pleasantness, and all her paths are peace. She is a tree of life to those who lay hold of her; those who hold her fast are called happy.

Salm 119. 65-72

Gwnaethost ddaioni i'th was, yn unol â'th air, O ARGLWYDD. Dysg imi ddirnadaeth a gwybodaeth, oherwydd yr wyf yn ymddiried yn dy orchmynion. Cyn imi gael fy ngheryddu euthum ar gyfeiliorn, ond yn awr yr wyf yn cadw dy air. Yr wyt ti yn dda, ac yn gwneud daioni; dysg i mi dy ddeddfau. Y mae'r trahaus yn fy mhardduo â chelwydd, ond yr wyf fi'n ufuddhau i'th ofynion â'm holl galon; y mae eu calon hwy'n drwm gan fraster, ond yr wyf fi'n ymhyfrydu yn dy gyfraith. Mor dda yw imi gael fy ngheryddu, er mwyn imi gael dysgu dy ddeddfau! Y mae cyfraith dy enau yn well i mi na miloedd o aur ac arian.

Psalm 119. 65-72

You have dealt well with your servant, O Lord, according to your word. Teach me good judgement and knowledge, for I believe in your commandments. Before I was humbled I went astray, but now I keep your word. You are good and do good; teach me your statutes. The arrogant smear me with lies, but with my whole heart I keep your precepts. Their hearts are fat and gross, but I delight in your law. It is good for me that I was humbled, so that I might learn your statutes. The law of your mouth is better to me than thousands of gold and silver pieces.

2 Corinthiaid 4. 1-6

Am hynny, gan fod y weinidogaeth hon gennym trwy drugaredd Duw, nid ydym yn digalonni. Yr ydym wedi ymwrthod â ffyrdd dirgel a chywilyddus; nid ydym yn arfer cyfrwystra nac yn llurgunio gair Duw. Yn hytrach, trwy ddwyn y gwirionedd i'r amlwg yr ydym yn ein cymeradwyo'n hunain i gydwybod pob un gerbron Duw. Os yw'n hefengyl ni dan orchudd, yn achos y rhai sydd ar lwybr colledigaeth y mae hi felly - yr anghredinwyr y dallodd duw'r oes bresennol eu meddyliau, rhag iddynt weld goleuni Efengyl gogoniant Crist, delw Duw. Nid ein pregethu ein hunain yr ydym, ond Iesu Grist yn Arglwydd, a ninnau yn weision i chwi er mwyn Iesu. Oherwydd y Duw a ddywedodd, "Llewyrched goleuni o'r tywyllwch", a lewyrchodd yn ein calonau i roi i ni oleuni'r wybodaeth am ogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist.

2 Corinthians 4. 1-6

Therefore, since it is by God's mercy that we are engaged in this ministry, we do not lose heart. We have renounced the shameful things that one hides; we refuse to practise cunning or to falsify God's word; but by the open statement of the truth we commend ourselves to the conscience of everyone in the sight of God. And even if our gospel is veiled, it is veiled to those who are perishing. In their case the god of this world has blinded the minds of the unbelievers, to keep them from seeing the light of the gospel of the glory of Christ, who is the image of God. For we do not proclaim ourselves; we proclaim Jesus Christ as Lord and ourselves as your slaves for Jesus' sake. For it is the God who said, 'Let light shine out of darkness', who has shone in our hearts to give the light of the knowledge of the glory of God in the face of Jesus Christ.

Mathew 9. 9-13

Wrth fynd heibio oddi yno gwelodd Iesu ddyn a elwid Mathew yn eistedd wrth y dollfa, a dywedodd wrtho, "Canlyn fi." Cododd yntau a chanlynodd ef. Ac yr oedd wrth bryd bwyd yn ei dŷ, a dyma lawer o gasglwyr trethi ac o bechaduriaid yn dod a chydfwyta gyda Iesu a'i ddisgyblion. A phan welodd y Phariseaid, dywedasant wrth ei ddisgyblion, "Pam y mae eich athro yn bwyta gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid?" Clywodd Iesu, a dywedodd, "Nid ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg. Ond ewch a dysgwch beth yw ystyr hyn, 'Trugaredd a ddymunaf, nid aberth'. Oherwydd i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod."

Matthew 9. 9-13

As Jesus was walking along, he saw a man called Matthew sitting at the tax booth; and he said to him, 'Follow me.' And he got up and followed him. And as he sat at dinner in the house, many tax-collectors and sinners came and were sitting with him and his disciples. When the Pharisees saw this, they said to his disciples, 'Why does your teacher eat with tax-collectors and sinners?' But when he heard this, he said, 'Those who are well have no need of a physician, but those who are sick. Go and learn what this means, "I desire mercy, not sacrifice." For I have come to call not the righteous but sinners.'

Ôl Gymun 127

Dduw grasol, rhoes dy Fab Iesu Grist fara ei fywyd a gair ei deyrnas yn fwyd i'r newynog: adnewyddu dy bobl â'th ras nefol, ac yn ein holl wendid cynnal ni trwy dy wir a'th fywiol fara, ef sy'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr ac am byth.

Post Communion Prayer 127

Gracious God, your Son Jesus Christ fed the hungry with the bread of his life and the word of his kingdom: renew your people with your heavenly grace, and in all our weakness sustain us by your true and living bread; who is alive and reigns, now and for ever.